| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 29 Medi 2015 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Pennaeth Cyllid ac Asedau |
| **Teitl:** | Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2014/15 (Atodiad 1) |

## 1 Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn sôn am fuddsoddiadau a benthyciadau’r Cyngor yn 2014/15. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu manylion o ran y sefyllfa economaidd pryd hynny a sut y bu i’r Cyngor gydymffurfio â’i Ddangosyddion Darbodus.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

2.1 Prif ddiben yr adroddiad hwn yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar berfformiad dull rheoli’r trysorlys ac i ddangos cydymffurfiaeth â therfynau’r trysorlys a’r Dangosyddion Darbodus yn 2014/15.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Gofynnir i’r Cabinet nodi Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2014/15.

## 4 Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae’r adroddiad yn nodi manylion gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor ac yn darparu trosolwg o’r cefndir economaidd ar gyfer y flwyddyn. Mae’r adroddiad hefyd yn nodi goblygiadau risg penderfyniadau a thrafodion y trysorlys ac yn cadarnhau bod y gweithgareddau yn cydymffurfio â therfynau’r trysorlys a’r Dangosyddion Darbodus.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae penderfyniadau buddsoddi a benthyca da yn galluogi i adnoddau ychwanegol gael eu hatgyfeirio at wasanaethau eraill y Cyngor.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Ddim yn berthnasol.

## 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

7.1 Nid oes angen hyn fel rhan o'r adroddiad hwn.

## 8 Pa ymgynghori a wnaed?

8.1 Mae’r Cyngor wedi ymgynghori â’i gynghorwyr trysorlys, Arlingclose Ltd.

8.2 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ar weithgareddau Rheoli Trysorlys y flwyddyn ac wedi adolygu’r adroddiad hwn cyn ei gyflwyno i’r Cabinet.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae a wnelo Rheoli Trysorlys ag edrych ar ôl symiau sylweddol o arian parod, felly mae’n rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae'n gofyn am strategaeth gadarn a rheolaethau priodol i ddiogelu arian y Cyngor, er mwyn sicrhau enillion rhesymol ar fuddsoddiadau a bod dyled yn cael ei reoli’n effeithiol ac yn ddoeth.

9.2 Mae Cod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor baratoi adroddiad blynyddol ar weithgarwch y trysorlys yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Bod y Cabinet yn nodi perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2014/15 a’i fod yn cydymffurfio â’r Dangosyddion Darbodus fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys 2014/15.

## 10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae Rheoli Trysorlys ynddo’i hun yn risg, ond mae’r Cyngor yn monitro ac yn rheoli’r risgiau hyn fel yr amlinellir yn y prif adroddiad. Fodd bynnag, mae'n amhosibl cael gwared ar y risgiau hyn yn gyfan gwbl. Caiff strategaeth a gweithdrefnau rheoli trysorlys y cyngor eu harchwilio’n flynyddol ac roedd adolygiad yr archwiliad mewnol diwethaf yn gadarnhaol ac ni chodwyd unrhyw faterion sylweddol.

## 11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli Trysorlys sy'n penderfynu ar y gofyniad i'r Cabinet dderbyn adroddiad blynyddol ar weithgareddau’r trysorlys yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.